| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **08.03.2011** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR SAFONAU I'R CYNGOR SIR YN AMLINELLU GWAITH Y PWYLLGOR YN 2010/11 AC YN CYFLWYNO EI RAGLEN WAITH AR GYFER 2011/12** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **SICRHAU CYMERADWYAETH Y CYNGOR SIR I WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Y PWYLLGOR SAFONAU** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **MEIRION JONES – Y CYFREITHIWR I'R SWYDDOG MONITRO** |

1. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2010, penderfynodd y Cyngor Sir gymeradwyo Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau am y flwyddyn a oedd yn dechrau ym Mawrth 2010. Mae'r ddogfen honno, ynghyd â diweddariad anodedig, i'w gweld yn **ATODIAD A.** Roedd y Rhaglen Waith wreiddiol yn cynnwys y tair colofn gyntaf, sef y gwaith i'w wneud, yr amserlen a'r adnoddau. Mae'r golofn ar y dde yn nodi'r gwaith sydd wedi'i wneud ac yn dangos y gwaith sydd ar ôl i'w wneud mewn coch/llythrennau italig.

2. Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad Llywodraethu Corfforaethol (paragraffau 25 a 26) ac mae, trwy ei Raglen Waith, wedi mabwysiadu rôl sy'n fwy rhagweithiol. Datblygwyd y Rhaglen Waith yn dilyn trafodaethau rhwng y Pwyllgor Safonau a'r Arweinyddion Grwpiau, a gwaith pellach gyda Swyddogion y Cyngor. Lluniwyd y blaenoriaethau arfaethedig i gefnogi'r Cyngor i gyflawni ei Raglen Adfer gyda phwyslais cryf ar gynorthwyo hunanreoliad trwy Gynllun effeithiol i ddatblygu Aelodau ac i roi cymorth ac arweiniad i Arweinyddion Grwpiau/Cadeirydd y Cyngor i ddatrys materion disgyblu yn y Cyngor, lle mae'n briodol.

3. Wrth i'r Pwyllgor Safonau ddatblygu ei Raglen Waith, roedd teimlad ei bod yn bwysig iddo wneud hynny gyda budd cyngor a mewnbwn gan y Cyngor i sicrhau bod y rhaglen gyffredinol hefyd yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu aelodau ac at y materion hynny a fyddai o'r cymorth mwyaf i'r Cyngor o ran ymateb i'r Archwiliad Llywodraethu Corfforaethol, sef materion y mae gan y Pwyllgor Safonau gylch gorchwyl priodol yn eu cylch. Un o gonglfeini'r Rhaglen Waith oedd esblygu Cynllun Datblygu Aelodau ac, er mwyn sicrhau bod hwnnw'n llwyddo, roedd angen cefnogaeth yr Aelodau gan gynnwys atborth ar sylwedd, cynnwys a'r dull o ddarparu'r sesiynau datblygiadol arfaethedig. I'r perwyl hwn, sefydlwyd Gweithgor Datblygu Aelodau i asesu, monitro a diwygio'r Cynllun Datblygu Aelodau wrth iddo esblygu. Roedd yr aelodaeth yn cynnwys tri aelod etholedig gydag un ohonynt wedi'i enwebu fel Pencampwr Aelodau'r Cyngor, aelod o'r Pwyllgor Safonau, Rheolydd AD y Cyngor, y Swyddog Monitro a chynrychiolydd o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Ym marn y Pwyllgor Safonau, roedd y trefniant hwn yn cynorthwyo'r Pwyllgor Safonau i weithio gyda'r aelodau etholedig i gael mwy o berchenogaeth o'r Cynllun Datblygu Aelodau ac i gael mwy o ran ynddo.

4. Mae'r Pwyllgor Safonau wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y 12 mis diwethaf; yn ffurfiol ar 3 achlysur ac yn anffurfiol ar 7 achlysur. Bydd yn cyfarfod eto yn ffurfiol ar 9 Mawrth 2011. Mae'r gwaith y mae wedi'i wneud wedi'i amlinellu yn **ATODIAD A.**

5. Mynychodd aelodau'r Pwyllgor Safonau sesiwn hyfforddi o'r enw 'Rôl a Gweithrediad Effeithiol y Pwyllgor Safonau" gyda Peter Keith-Lucas ar 11 Mai 2010.

6. Yn dilyn argymhelliad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y dylai Cynghorwyr Sir fod yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau, penderfynodd y Cyngor ddilyn yr argymhelliad hwnnw yn y cyfarfod ar 11 Mai 2010 ac enwebwyd 3 Chynghorydd Sir i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Safonau sef y Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes, J Arwel Roberts ac Ieuan Williams. Trwy gyd-ddigwyddiad, mae'r ddau aelod olaf hefyd yn aelodau o'r Gweithgor Datblygu Aelodau.

7. Bydd aelodau'r Pwyllgor Safonau cyfredol yn parhau i wasanaethu yn y rôl honno tan 17 Rhagfyr 2011 a bydd gwaith yn dechrau yn yr haf i benodi Pwyllgor Safonau newydd erbyn y dyddiad cau ym mis Rhagfyr.

8. Yn **ATODIAD B** sydd ynghlwm gwelir y Rhaglen Waith ddrafft ar gyfer y Pwyllgor Safonau o fis Mawrth 2011 i fis Mawrth 2012. Mae pwyslais sylweddol ar recriwtio a hyfforddiant ar gyfer yr aelodau o'r Pwyllgor Safonau newydd.

9. Yn ogystal â'i waith arall, mae'r Pwyllgor Safonau yn ymwneud â threfnu hyfforddiant ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned ar y Côd Ymddygiad a byddwn yn hoffi achub ar y cyfle hwn i ofyn am eich cymorth, trwy eich cysylltiadau gyda'ch Cynghorau Tref a Chymuned, i sicrhau bod nifer dda yn mynychu'r sesiynau hyfforddi sy'n cael eu trefnu ar hyn o bryd.

**Argymhellion**

- Nodi cynnwys yr Adroddiad hwn; a
- Cymeradwyo Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2011/12

## RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU 2010 – ADOLYGWYD DDIWETHAF AR 14/02/2011

| | | AMSERLEN | ADNODDAU | Y SEFYLLFA AR 14/2/11 |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Cynnal gwrandawiadau i doriadau honedig yn y Cod Ymddygiad i Aelodau yn dilyn derbyn atgyfeiriadau gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru yn unol ag Adran 69 o Bennod III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. | • Pryd bynnag y bydd atgyfeiriadau o'r fath yn cael eu derbyn gan yr Ombwdsmon. | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr y Swyddog Monitro | • Ystyriaeth o faterion Ombwdsmon 10/06/09, 08/09/09, 06/10/09 13/7/10 a 14/9/10, 12/10/10 a 14/12/10 a derbyn adroddiadau chwarterol ac adroddiad blynyddol.<br>• Ni yw'r Ombudsman wedi gwneud unrhyw atgyfeiriad ac felly nid oes yr un gwrandawiad wedi'i gynnal. |
| 2. | Cynnal gwrandawiadau i geisiadau am ganiatâd arbennig gan Gynghorwyr Sir yn unol ag Offeryn Statudol 2001 Rhif 2279(w.169) | • Pan dderbynnir ceisiadau | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr y Swyddog Monitro | • Cynhaliwyd gwrandawiadau ar 10/11/2009, 11/11/2009, 27/01/2010, 02/06/2010 a 14/12/10. |
| 3. | Ar gais unrhyw Arweinydd Grwp, rhoi cyngor ar faterion yn codi o dan Brotocol Hunan Reoleiddio arfaethedig y Cyngor. | • Pan fydd unrhyw Arweinydd Grwp neu Arweinyddion Grwp yn gofyn am hynny | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr y Swyddog Monitro | • Ni dderbyniwyd cais or fath |
| 4. | Bod a throsolwg dros y Cynllun Datblygu Aelodau, y bwriedir iddo gynnwys: | • Yn unol â'r amserlen a amlinellwyd yn y ddogfen "Symud | • Rheolwr Hyfforddiant a Datblygiad<br>• CLLC/WLGA | • Rôl yr Aelod Modern – 08/09/09, 03/12/09, 07/12/09, 12/01/10, |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Rôl yr Aelod Modern<br>• Rôl a Swyddogaeth Sgriwtini/Trosolwg<br>• Cod Ymddygiad<br>• Rôl a Gweithrediad Moesol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion<br>• Sgiliau i Gadeiryddion<br>• Rhyddid Gwybodaeth/Diogelu Data | Ymlaen gyda Datblygu Aelodau yn Ynys Môn” | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro<br>• Swyddog Gwybodaeth Corfforaethol | 09/02/10, 09/3/10, 13/04/10 a 13/07/10, 12/10/10 a 14/12/10. Ystyriwyd gan y Cyngor llawn ar 08/02/10 ar ôl iddo gael ei ohirio ar 9/12/10<br>• Côd Ymddygiad 08/09/09, 16/09/09 ac12/01/10 .<br>• Hyfforddiant i Gynghorau Gymuned a Thref ar y Côd Ymddygiad.<br>• Sgriwtini 09/03/10.<br>• Cyfarfodydd gydag Arweinyddion Grwpiau 07/12/09 a 09/02/10.<br>• Cynllunio ar 24/11/09 a 08/06/10 a 14/12/10.<br>• Rhyddid Gwybodaeth a.y.y.b – cyflwyniad gan y Swygddog Gwybodaeth Corfforaethol ar 09/03/10 a drafft o'r Protocol Gwybodaeth ar 14/12/10. |
| 5. | Derbyn adroddiadau a chymeryd rhan mewn adroddiadau gan y Gweithgor Datblygu Aelodau. | • Yn unol â'r amserlen a amlinellwyd yn y ddogfen “Symud Ymlaen gyda Datblygu Aelodau yn Ynys Môn” | • Rheolwr Hyfforddiant a Datblygiad<br>• CLLC/WLGA<br>• Swyddog Monitro | • Adroddiad i'r cyfarfod ar 08/06/10, ac adroddiad (a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 9/12/2010 ac ystyriwyd ar 8/2/11 wedi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | iddo gael ei ohirio ar 9/12/10) gan Bengampwr Datblygu Aelodau / Cadeirydd Gweithgor Dablygu Aelodau ar 14/12/10 |
| 6. | Arolygu'r ddwy Gofrestr o Ddiddordebau'r Aelodau trwy gynnal arolygon blynyddol yn cael eu dilyn gan gyngor a chyfarwyddyd, os yn briodol. | • Dyddiadau i'w trefnu | • Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr y Swyddog Monitro | • Cynhaliwyd adolygiad ar 16 Medi 2009<br>• Cyngor/cyfarwyddyd yn cael ei roi ar 29 Medi 2009<br>• Cymeradwyo drafft o ffurflen Datgan Diddordeb newydd 9 Mawrth 2010<br>• Allan i ymgynghoriad gydag Aelodau rhwng 16 Mawrth a 6 Ebrill 2010<br>• Cymeradwyd ffurflen derfynol i Ddatgan Diddordeb mewn Cyfarfodydd ar 08/06/10 a gweithredwyd ar 01/07/10.<br>• Cynhaliwyd adolygiadau pellach o'r Cofrestrau ar 14/09/10 a 12/10/10 a'i barhau ar 02/02/11. |
| 7. | Cadw golwg ar y Gofrestr o Roddion a Lletygarwch trwy gynnal arolygon blynyddol ac wedyn gynnig cyngor a chyfarwyddyd fel y bo'n briodol. | • 11 Mai 2010 | • Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr y Swyddog Monitro | • 11/05/2010<br>• Ystyriaeth pellach ar 08/06/10, 13/07/10 a 14/09/10 ac wedyn gan |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cynnwys arolwg o'r polisi ac unrhyw argymhellion yn codi o hynny. | | | y Cyngor Sir ar 09/12/10, ac ystyriwyd yn y cyfarfod anffurfiol ar 02/02/11. |
| 8. | Cyflwyno argymhellion ar brotocol i ddelio gyda cheisiadau gan aelodau o'r Cyngor a chan swyddogion am ganiatâd cynllunio ac os argymhellir newidiadau, adolygu effeithiolrwydd y rheini yn dilyn cyfnod o dreialu. | • 24 Tachwedd 2009 | • Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd<br>• Dirprwy Swyddog Monitro<br>• Swyddog Monitro | • 24/11/2009<br>• Adroddiad ystyriwyd yn ymhellach ar 08/06/10.<br>• Ystyriwyd Rheolau Gweithdrefn Cynllunio ar 14/12/10.<br>• *I'r Cyngor ar 8/3/2011* |
| 9. | Gweithredu fel pwyllgor i ymgynghori ag ef ar unrhyw newidiadau arfaethedig i'r cyfansoddiad fyddai'n rhagfarnu hawliau a diddordebau unrhyw grwp lleiafrifol mewn ffordd anghyfartal. | • Yn amodol ar gymeradwyo'r cynnig gan Gyngor Llawn ar 4 Mawrth 2010<br>• Pan ofynnir am wneud hynny | • Swyddog Monitro<br>• Rheolwr-gyfarwyddwr | • Swyddogaeth diogelu wedi ei gymeradwy gan y Cyngor 04/03/10.<br>• *Adolygiad Cyfansoddiad ar 12/05/2011* |
| 10. | Gweithredu fel pwyllgor i ymgynghori ag ef yng nghyswllt Canllawiau drafft a gyhoeddir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yng nghyswllt Cod Ymddygiad Aelodau. | • 12 Ionawr 2010 | • Swyddog Monitro | • 12/01/2010<br>• Cyflwynodd yr Ombwdsmon ei Ganllawiau ar 29/04/10 |
| 11. | Gweithredu fel pwyllgor yr ymgynghorir ag ef yng nghyswllt unrhyw ymgynghori gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar Sgriwtini / Strwythurau Gwleidyddol. | • 9 Mawrth 2010 | • Swyddog Monitro | • 9/03/2010<br>• Mesur Llywodraeth Leol 2010, disgwylir yn hwyr 2011. |
| 12. | Adolygu swyddogaeth yr aelodau dan Bolisi Gosod Tai Cyngor ac os ydyw'n | • 13 Ebrill 2010 | • Pennaeth Gwasanaeth (Tai)<br>• Swyddog Monitro | • Ystyriwyd ymehllach ar 13/04/10 a 08/06/10. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | briodol cyflwyno argymhellion o blaid newidiadau. | | | |
| 13. | Ar ôl ymgynghori gyda'r aelodau goruchwylio'r broses o gyhoeddi ffurflenni Datganiad o Ddiddordeb yr Aelodau (Cofrestr Sefydlog yn unig) ar wefan y Cyngor a sicrhau bod y cyfleuster hwn yn cael cyhoeddusrwydd. | • Dyddiadau i'w trefnu | • Swyddog Monitro | • Ystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau ar 24 Tachwedd 2009.<br>• Ymgynghoriad efo'r Aelodau 27 Tachwedd 2009 – 11 Rhagfyr 2009<br>• Cymeradwywyd gan y Pwyllgor Safonau 12 Ionawr 2010.<br>• Disgwyliedig ar Wefan y Cyngor 15 Mawrth 2010<br>• Fe gyflwynwyd ar wefan y Cyngor ar 15/03/10. |
| 14. | Yn amodol ar y gwaith ymgynghori a wneir gyda'r aelodau, cyflwyno argymhellion i gyhoeddi rhagor o wybodaeth ar wefan y Cyngor, (a chan gynnwys gwybodaeth am lwfansau, treuliau, cofnodion mynychu a'r oriau o hyfforddiant a gafodd pob aelod). | • 8 Mehefin 2010 | • Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr y Swyddog Monitro | • 08/06/2010.<br>• Ystyriwyd yn y cyfarfod anffurfiol 13/07/10 a'r cyfarfod ffurfiol ar 14/09/2010 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 15. | Codi proffil y Pwyllgor Safonau trwy:-<br><br>• Rhoddi manylion bywgraffyddol am aelodau'r Pwyllgor Safonau ar wefan y Cyngor.<br><br>• Lansio Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2010 trwy roi datganiad yn y wasg leol.<br><br>• Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn darparu cyflwyniadau i'r cyhoedd ar waith ac ar gyfansoddiad ac ar y dull o recriwtio i'r Pwyllgor Safonau etc yn ystod y gyfres nesaf fwyaf priodol o gyfarfodydd cyhoeddus ("Hawl i Holi").<br><br>• Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor llawn yn amlinellu gwaith y Pwyllgor Safonau yn ystod y deuddeng mis cynt. | <br><br>• 4 Chwefror 2010<br><br>• Cyn gynted a phosibl ar ôl 4 Mawrth 2010<br><br>• Ar yr adeg mwyaf addas yn ystod haf 2011 gan fod y Pwyllgor Safonau newydd i'w recriwtio erbyn 18 Rhagfyr 2011<br><br>• Cyfarfod y Cyngor Mawrth 2011 | <br><br>• Swyddog Cyfathrebu<br>• Rheolwr y Wefan<br><br>• Swyddog Cyfathrebu<br><br>• Swyddog Monitro<br>• Swyddog Cyfathrebu<br><br>• Swyddog Monitro | <br><br>• 04/02/2010.<br>• Gwnaethpwyd hyn ar 16/03/10<br><br>• *Eto i'w wneud*<br><br>• Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar 02/02/2011<br>• *Gwnaethpwyd heddiw 08/03/2011* |

## RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU - MAWRTH 2011 i FAWRTH 2012

| | | AMSERLEN | ADNODDAU |
|---|---|---|---|
| 1. | Cynnal gwrandawiadau i achosion honedig o dorri'r Côd Ymddygiad i Aelodau yn dilyn derbyn atgyfeiriadau gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru yn unol ag Adran 69, Pennod III, Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. | • Pryd bynnag y bydd atgyfeiriadau o'r fath yn cael eu derbyn gan yr Ombwdsmon. | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr y Swyddog Monitro |
| 2. | Cynnal gwrandawiadau i geisiadau am ganiatâd arbennig gan Gynghorwyr Sir yn unol ag Offeryn Statudol 2001 Rhif 2279(w.169) | • Fel a phryd y derbynnir ceisiadau | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr y Swyddog Monitro |
| 3. | Ar gais unrhyw Arweinydd Grŵp, rhoi cyngor ar faterion yn codi o dan Brotocol Hunanreoleiddio arfaethedig y Cyngor. | • Pan fydd unrhyw Arweinydd Grŵp neu Arweinyddion Grŵp yn gofyn am hynny | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr y Swyddog Monitro |
| 4. | Bod â throsolwg dros y Cynllun Datblygu Aelodau, y bwriedir iddo gynnwys:<br><br>• Ynghlwm mae Cynllun Datblygu Blynyddol i Aelodau Etholedig a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 09/12/10 ac a ohiriwyd hyd nes y cyfarfod o'r Cyngor ar 08/02/11 (106592)<br><br>• Sesiynau hyfforddi a chynefino ar gyfer y Pwyllgor Safonau newydd.<br>• Ystyried a pharatoi ar gyfer sesiynau cynefino | • Ynghlwm mae Cynllun Datblygu Blynyddol i Aelodau Etholedig a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 09/12/10 ac a ohiriwyd hyd nes y cyfarfod o'r Cyngor ar 08/02/11 (106592)<br>• Ar ôl 18/12/11<br><br>• Mawrth 2012 | • Rheolydd AD<br>• CLLC/WLGA<br>• Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro<br>• Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | a hyfforddi Cynghorwyr yn 2012.<br>• Targedir yr hyfforddiant i gwrdd ag anghenion penodol y rheini a sancsiynwyd gan y Panel Dyfarnu. | • Fel y cyfyd yr angen. | |
| 5. | Derbyn adroddiadau a chymryd rhan mewn adroddiadau gan y Gweithgor Datblygu a Chefnogi Aelodau. | • Fel a phryd y cyfyd yr angen | • Rheolydd AD<br>• CLLC/WLGA<br>• Swyddog Monitro |
| 6. | Arolygu'r ddwy Gofrestr o Ddiddordebau'r Aelodau trwy gynnal arolygon blynyddol a thrwy roi cyngor a chyfarwyddyd wedyn, os yn briodol. | • Anfonir nodyn atgoffa ym Mai 2011 ac adolygiad ym Medi 2011 | • Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr y Swyddog Monitro |
| 7. | Cadw golwg ar y Gofrestr o Roddion a Lletygarwch trwy gynnal arolygon blynyddol ac wedyn gynnig cyngor a chyfarwyddyd fel y bo'n briodol. | • Adolygiad ar ôl 08/05/11. | • Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr y Swyddog Monitro |
| 8. | Cynnwys adolygiad o bolisi'r Cyngor ar roddion a lletygarwch ac unrhyw argymhellion sy'n codi ohonynt, a pharhau gyda'i waith ar Brotocol ar gyfer Rhoddion a Lletygarwch. | • Mawrth 2011 ymlaen | • Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr y Swyddog Monitro |
| 9. | Gweithredu fel pwyllgor i ymgynghori ag ef ar unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad fyddai'n rhagfarnu hawliau a diddordebau unrhyw grŵp lleiafrifol mewn ffordd anghyfartal. | • Fel a phryd y gofynnir. | • Swyddog Monitro<br>• Rheolwr-gyfarwyddwr |
| 10. | Codi proffil y Pwyllgor Safonau trwy:-<br>• Lansio Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2011 trwy ddatganiad i'r wasg.<br>• Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn rhoi cyflwyniad/cyflwyniadau i'r cyhoedd ar waith, cyfansoddiad a recriwtio i'r | • Cyn gynted ag y bo modd ar ôl 08/03/2011<br>• Ar yr adeg fwyaf priodol yn haf 2011 gan y bydd rhaid recriwtio'r Pwyllgor Safonau | • Swyddog Cyfathrebu<br>• Swyddog Monitro<br>• Swyddog Cyfathrebu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Pwyllgor Safonau ac ati yn ystod y rownd mwyaf priodol o'r cyfarfodydd cyhoeddus ("Hawl i Holi")<br>• Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor llawn yn amlinellu gwaith y Pwyllgor Safonau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. | newydd erbyn 17/12/201<br>• Mawrth 2012 | • Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr y Swyddog Monitro |
| 11. | Adolygu Protocol y Cyngor ar gyfer y Berthynas Aelodau/Swyddogion sydd yn rhan 5.3 o'r Cyfansoddiad ar hyn o bryd, law yn llaw â'r Protocol Gwybodaeth. | • Tachwedd 2011 ymlaen | • Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr y Swyddog Monitro |
| 12. | Cynllun peilot ar gyfer Protocol Hunanreoleiddiad | • Hydref 2011 ymlaen | • Swyddog Monitro |
| 13. | Sefydlu Panelau i ddelio gyda chaniatadau arbennig, yn arbennig ar fyr rybudd. | • Mai 2011 | • Swyddog Monitro |
| 14. | Gweithredu fel Pwyllgor i ymgynghori ag ef ynghylch adroddiad sy'n rhoi sylw i Hawliau Mynediad Aelodau a materion Diogelwch Data | • Fel y cyfyd yr angen. | • Swyddog Monitro<br>• Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol |
| 15. | Ystyried y Weithdrefn Gwynion Gorfforaethol a Model Llywodraeth Cynulliad Cymru. | • Fel a phryd y cyhoeddir y dogfennau | • Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr y Swyddog Monitro<br>• Swyddog Gofal Cwsmer Corfforaethol |
| 16. | Ystyried y Cyfansoddiad drafft newydd. | • Mawrth 2011 ymlaen | • Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr y Swyddog Monitro |
| 17. | Ystyried unrhyw newidiadau eraill i'r Cyfansoddiad | • Fel y cyfyd yr angen | • Swyddog Monitro |
| 18. | Derbyn Mesur Llywodraeth Leol | • Ar adeg ei gyhoeddi gan LICC | • Swyddog Monitro |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Rheolwr-gyfarwyddwr |
| 19. | Recriwtio'r Pwyllgor Safonau newydd erbyn 17/12/2011 | • Haf 2011 ymlaen. | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr y Swyddog Monitro. |

## CYNLLUN DATBLYGU BLYNYDDOL I AELODAU ETHOLEDIG

### Tachwedd 2010 – Mawrth 2012

| MAES | CYNULLEIDFA | DARPARWR POSIBL | DYDDIAD ARFAETHEDIG YR HYFFORDDIANT OS YW'N HYSBYS |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau Cadeirio – Sesiynau Hyfforddi** | Cadeiryddion/ Is-Gadeiryddion | Clare Forrest | Tachwedd 2010 |
| **Rheoli Risg** | Pwyllgor Archwilio | James Quance – PWC<br>Owen Rees – Zurich | Tachwedd 2010 |
| **Rheoli'r Trysorlys** | Pwyllgor Archwilio / Pwyllgor Gwaith | Richard Basson, Sector | Rhagfyr 2010 |
| **Datblygu Protocolau Gwleidyddol** | | Ian Bottrill | Ionawr/Chwefror 2011 |
| **Côd Ymddygiad a Moeseg** | Cynghorau Tref a Chymuned | Ken Burton – Unllais Cymru | Chwefror 2011 |
| **Gwybodaeth Dylunio ar gyfer Cymru** | Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio | Allanol | Mawrth 2011 |
| **Cynllun Gwella Cynllunio** | Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio | Mewnol | Mawrth 2011 |
| **Rheoli Risg** | Pwyllgor Archwilio / Pwyllgor Gwaith | James Quance – PWC<br>Owen Rees – Zurich | Ebrill/Mai 2011 |
| **Y diweddaraf ar y Weithdrefn Gwynion Newydd Statudol** | Yr holl Aelodau | Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol a'r Swyddog Gofal Cwsmer | I'w drefnu |
| **Diweddariadau ynghylch Cynllunio** | Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio | Robyn Jones (Cyfreithiol) & E Gwyndaf Jones (Cynllunio) | Fel a phryd y caiff ei nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Y diweddaraf ar Drwyddedu** | Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu | Ar y cyd gyda Chyngor Sir Gwynedd | Fel a phryd y caiff ei nodi |
| **Y diweddaraf ar y Côd Ymddygiad** | Yr holl Aelodau | Swyddog Monitro | I'w drefnu |
| **Sgiliau TG** | Yr holl Aelodau | Darparwyr Mewnol ac Allanol | Fel a phryd y caiff ei nodi |
| **Trosolwg o Reolaeth Prosiect** | Fel y caiff ei nodi gan y Rheolwr Prosiect Interim | Mewnol | Fel a phryd y caiff ei nodi |
| **Blaenoriaethu Baich Gwaith** | Yr holl Aelodau | Ar y cyd gyda Chyngor Sir Gwynedd | I'w drefnu |
| **Sgriwtini – Dadansoddi Cyllidebau** | Yr holl Bwyllgorau Sgriwtini | Cyfarwyddwr Cyllid Corfforaethol | I'w drefnu |
| **Sgriwtini – Cadeirio** | Yr holl Bwyllgorau Sgriwtini | Clare Forrest | I'w drefnu |
| **Sgriwtini - Sgiliau Cwestiynu** | Yr holl Bwyllgorau Sgriwtini | Mewnol | I'w drefnu |
| **Cynllunio Adolygiad Manwl o Sgriwtini** | Yr holl Bwyllgorau Sgriwtini | Mewnol | I'w drefnu |
| **Materion Pwrcasu** | I'w nodi | Mewnol | I'w drefnu |
| **Hyfforddiant Cyflwyno** | Fel a nodir ar gyfer Aelodau Etholedig newydd | Mewnol | Fel a phryd y caiff ei nodi |